

# Semi-Permanent Make Up -

## Microblading treatments



### Are you at risk?

#### What is microblading?

Microblading is a form of tattooing; it is carried out using a blade, which is made up of a row of fine needles. The blade is dipped into a coloured pigment (ink) and then placed into the upper layer of the skin with a slicing motion to create fine hair like strokes. The results are natural looking fuller eyebrows.

#### What are the risks?

The microblading procedure involves puncturing the skin and inserting a pigment (ink). If the microblading equipment is re-used between clients, it will become contaminated and can result in causing localised infection at the site of the puncture or the transmission of blood-borne viruses, for example, Hepatitis B, Hepatitis C or HIV. Allergic reactions to the pigment, numbing cream and ointments used as well as scarring from repeated procedures are also associated risks of microblading.

#### Common symptoms of infection to look out for:

**Fever**  
**Swelling**  
**Tenderness**  
**Discharge – yellow/green/brown colour**  
**Off-putting smells**

If you experience any of the above symptoms, please seek medical advice and report your concerns to the Communicable Disease, Health and Safety Team at SRS.

#### What training is required?

There is no mandatory, legally-required training for people offering microblading treatments. However, since microblading is an invasive procedure, Technicians offering microblading treatments should have some level of knowledge and experience in infection prevention and control (IPC) procedures associated with the treatment.

#### How do I find a salon using safe microblading practices?

- Choose a business that is licensed and/or registered with the Local Authority. Businesses are required by law to display their Licence or Certificate of Registration along with the local byelaws if these apply in your area.
- Research the business. Visit their website or look at their social media page, For example, look at their Facebook, Instagram and Twitter accounts to see if anyone has mentioned anything about poor hygiene or infection following the procedure.
- They must arrange a patch test with you, preferably 48 hours prior to treatment. This will test whether you have an allergy to any of the pigments or inks.
- You should always expect to complete a health questionnaire or consultation before the treatment to minimise any adverse health effects
- When you visit for your consultation have a look to see that the room where the procedure is being carried out is in an enclosed, dedicated space away from the public and other beauty treatments.

- Look at the cleanliness of the salon or room where the procedure is being carried out and the condition of the equipment including the treatment bed. It should be in good repair, clean, orderly and free from clutter. Ideally there should be a wash hand basin in the room. If not, there should be one easily accessible to the room.
- On the day of your treatment pay attention to how the Technician sets up their work station. It should be on a clean, clutter free trolley or work surface and already laid out prior to the procedure.
- Check the microblading blade and hand tool is pre-packaged, single use, sterile and discarded after the treatment into a yellow sharps bin. Reusable equipment such as scissors, tweezers and callipers should be cleaned and disinfected between clients to protect against infections and be stored in a suitable clean container. Pencils used for marking the skin are single use only.
- Check that the Technician washes their hands and changes their gloves regularly during the procedure. This should be done before they start the procedure and put on their gloves and if they leave the room or take a break. Proper handwashing and appropriate use of gloves helps to protect the Technician and your-self from infection.

See NHS choices website for more information

<https://www.nhs.uk/conditions/cosmetic-treatments/permanent-make-up/>

Chartered Institute of Environmental Health



# Colur Lled-Barhaol - Triniaethau micro-lafnu



## Ydych chi mewn perygl?

### Beth yw micro-lafnu?

Math o datŵio yw micro-lafnu; caiff ei wneud â llafn, sy'n cynnwys rhes o nodwyddau mân. Caiff y llafn ei drochi mewn pigment lliw (inc) cyn ei roi ar haen uchaf y croen ar ffurf holtau i greu trawiadau fel blew mân. O ganlyniad, gallwch gael aeliau llawnach sy'n edrych yn naturiol.

### Beth yw'r peryglon?

Mae'r broses micro-lafnu yn cynnwys torri'r croen a gosod pigment ynddo (inc). Bydd offer micro-lafnu sy'n cael eu hail-ddefnyddio o un cleient i'r llall yn cael eu heintio a gall achosi haint lleoledig yn y man y mae'r croen wedi'i dorri neu gellir trosglwyddo firysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed, er enghraift, Hepatitis B, Hepatitis C neu HIV. Mae adweithiau alergaidd i'r pigment, yr eliau marweiddio a ddefnyddir yn ogystal â chreithiau yn sgil ailadrodd y broses sawl gwaith hefyd yn beryglon sy'n gysylltiedig â micro-lafnu.

### Pa hyfforddiant sydd ei angen?

Nid oes angen unrhyw hyfforddiant hanfodol yn ôl y gyfraith ar bobl sy'n cynnig triniaeth micro-lafnu. Fodd bynnag, gan fod micro-lafnu'n driniaeth ymledol, dylai fod gan Dechnegwyr sy'n cynnig triniaeth micro-lafnu ryw lefel o wybodaeth a phrofiad ym maes prosesau rheoli ac atal heintiau sy'n gysylltiedig â'r broses.

### Sut allaf ddod o hyd i salon sy'n dilyn arferion micro-lafnu diogel?

- Dewiswch fusnes sydd wedi'i drwyddedu a/neu sydd wedi'i gofrestro gyda'r Awdurdod Lleol. Mae gofyn i fusnesau yn ôl y gyfraith arddangos eu Trwydded neu Dystysgrif Cofrestru yngyd â'r is-ddeddfau lleol os yw'r rhain yn berthnasol i'ch ardal.
- Ymchwiliwch i'r busnes. Ewch i'w wefan neu cymerwch olwg ar ei gyfryngau cymdeithasol, fel Facebook, Instagram a Twitter i weld a oes rhywun wedi nodi unrhyw beth ynglŷn â hylendid gwael neu haint yn dilyn y driniaeth.
- Rhaid iddynt drefnu prawf â chi ar ran o'ch croen, yn ddelfrydol 48 awr cyn y driniaeth. Bydd hyn yn profi a oes gennych alergedd i unrhyw rai o'r pigmentau neu inciau.
- Dylech bob tro ddisgwyl cwbllau arolwg neu ymgynghoriad iechyd cyn y driniaeth er mwyn lleihau unrhyw effeithiau andwyol posibl ar eich iechyd.
- Wrth fynd i'ch ymgynghoriad edrychwch i weld a yw'r ystafell lle bydd y driniaeth yn cael ei chynnal yn fan caeedig a phwrpasol i ffwrdd o'r cyhoedd a thriniaethau harddwch eraill.

### Symptomau cyffredin o heintiad i gadw golwg arnynt yw:

\* Gwres

\*Chwyddiadau

\*Tynerwch

\*Lif yn dod o'r croen – lliw melyn/gwyrdd/brown

\*Arogleuon amhleserus

Os ydych yn sylwi ar unrhyw un o'r symptomau uchod, ceisiwch gyngor meddygol a rhowch wybod i'r Tîm Iechyd a Diogelwch – Clefydau Trosglwyddadwy yn y GRhR am eich pryderon.

- Edrychwch ar hylendid y salon neu'r ystafell lle mae'r driniaeth yn cael ei chynnal a chyflwr yr offer, gan gynnwys y gwely triniaeth. Dylai fod mewn cyflwr da, yn lân, yn drefnus ac yn rhydd rhag annibendod. Yn ddelfrydol, dylai fod basn golchi dwylo yn yr ystafell. Os na, dylai fod un o fewn cyrraedd hawdd i'r ystafell.
- Ar ddiwrnod y driniaeth, sylwch ar y modd y mae'r Technegydd yn trefnu ei orsaif waith. Dylai fod ar drolî neu arwyneb gwaith glân heb annibendod ac wedi'i drefnu cyn y driniaeth.
- Sicrhewch fod y llafn micro-lafnu a'r offer llaw wedi'u pecynnu, eu bod yn offer defnydd untro, yn ddi-haint ac yn cael eu taflu ar ôl y driniaeth mewn biniau nwyddau miniog melyn. Dylai offer amldro, megis sisyrnau, plcywyr a chaliperau gael eu glanhau a'u diheintio rhwng cleientiaid i amddiffyn yn erbyn heintiau cyn eu storio mewn cynhwysydd glân addas. Mae pensiliau sy'n cael eu defnyddio i farcio'r croen at ddefnydd untro yn unig.
- Sicrhewch fod y Technegydd yn golchi ei ddwylo ac yn newid ei fenig yn rheolaidd yn ystod y driniaeth. Dylid gwneud hyn cyn iddo ddechrau'r driniaeth a gwisgo ei fenig ac os yw'n gadael yr ystafell neu'n cael hoe. Mae golchi dwylo'n gywir a defnyddio menig yn gywir yn helpu i amddiffyn y Technegydd a chi'ch hun rhag haint.

Gweler gwefan dewisiadau'r GIG am ragor o wybodaeth <https://www.nhs.uk/conditions/cosmetic-treatments/permanent-make-up/>

Chartered Institute of  
Environmental Health

